**RHYBUDD o Benderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor ac yn rhithwir ar Zoom ddydd Mawrth, 25 Hydref, 2022**

Cyhoeddir y rhybudd hwn am 5:00pm ddydd Gwener, 28 Hydref, 2022. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ddydd Gwener, 4 Tachwedd, 2022. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd cais dilys i'w galw i mewn) ddydd Llun, 7 Tachwedd 2022.

**Presennol**: Y Cynghorwyr Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Alun W Mummery, Carwyn Jones (Cadeirio'r cyfarfod), Robin Williams, Gary Pritchard, Alun Roberts a Nicola Roberts,

**Hefyd yn Bresennol**: Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Glyn Haynes, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Derek Owen, Dylan Rees, Dafydd Roberts, Ken Taylor, Arfon Wyn

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorydd Llinos Medi

(10.00 yb – 11.05 yb)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau fod cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 27 Medi 2022 yn gywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Amherthnasol** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Amherthnasol** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi ei** |

| | |
|---|---|
| | **diweddaru am y cyfnod Tachwedd 2022 i Fehefin 2023, gyda'r newid y cyfeiriwyd ato yn y cyfarfod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel y nodir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2021/22**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cytuno cynnwys yr Adroddiad Perfformiad 2021/22 fel adlewyrchiad teg a chyflawn o waith yr Awdurdod dros y cyfnod hynny ac argymell i'r Cyngor Sir yn ei gyfarfod Hydref 27ain, 2022 y dylid ei fabwysiadu.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Yn unol â gofynion y Cyfansoddiad** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel y nodir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Na. Mae'n rhaid i'r adroddiad gael ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Cynllun Gweithredu Ôl-Arolwg**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Dysgu, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu Ôl-Arolwg Estyn, a bod y Pwyllgor Gwaith yn cymryd sicrwydd bod y cynllun yma yn ymateb i argymhellion yr arolwg Estyn mewn** |

| | |
|---|---|
| | **modd rhesymol ac amserol.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Rhoi sicrwydd bod y Gwasanaeth Dysgu'n ymateb i argymhellion yr arolwg Estyn.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel y nodir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Rhaglen Arfor 2**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd -**<br>• **Cytuno y bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithredu ar y cyd efo awdurdodau sirol eraill perthnasol fel partner yn Rhaglen ARFOR 2.**<br>• **Awdurdodi'r Pennaeth Gwasanaeth – Rheoleiddio a Datblygu Economi i wneud y canlynol, gyda chytundeb y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) /Swyddog 151 mewn perthynas â phenderfyniadau Cyllidol, a'r Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol mewn perthynas â chytundebau cyfreithiol :-**<br>  ◦ **Derbyn telerau cytundeb(au) rhanbarthol yn ymwneud a rhaglen ARFOR 2;**<br>  ◦ **Derbyn cyllid ARFOR 2 a rheoli'r cyllid yma yn unol ag amodau'r cyllid;**<br>  ◦ **Gweinyddu cynlluniau a grantiau ARFOR 2 sy'n gyfrifoldeb arnom;**<br>  ◦ **Cynrychioli'r Cyngor mewn gweithgareddau rhanbarthol ARFOR 2, yn cynnwys cytuno manylion y rhaglen sy'n berthnasol i Ynys Môn.** |

| | |
|---|---|
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Rhoi awdurdod ffurfiol i'r awdurdod ymuno â rhaglen Arfor 2** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel y nodir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 Cais am Borthladd Rhydd**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>• **Oherwydd y terfyn amser ar gyfer cyflwyno cais, bod y Pwyllgor Gwaith yn dirprwyo'r awdurdod i'r Prif Weithredwr gyflwyno'r Cais Porthladd Rhydd terfynol, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r Aelod Portffolio Datblygu Economaidd.**<br>• **Cytuno fod galw i mewn yn cael ei eithrio ar sail brys a niwed i ddiddordeb y cyhoedd.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cefnogi'r cais Porthladd Rhydd Caergybi** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel y nodir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Na. Mae'r mater wedi'i eithrio rhag ei alw i mewn ar sail brys a niwed i ddiddordeb y cyhoedd** |

## EITEM GYFRINACHOL

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 Datblygiad Tai ar Safle Cyn Ysgol Niwbwrch** |

| | |
|---|---|
| | Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd, yn amodol ar dderbyn caniatâd cynllunio, cymeradwyo bwrw 'mlaen â'r cynllun i ddatblygu14 o gartrefi newydd mewn ymateb i'r her dai leol, er mwyn galluogi i drigolion lleol brynu neu rentu tŷ fforddiadwy ar hen safle Ysgol Gynradd Niwbwrch.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cymeradwyo'r cynllun newydd i godi 14 o unedau ar hen safle Ysgol Gynradd Niwbwrch mewn ymateb i'r her dai leol** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel y nodir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

## EITEM GYFRINACHOL

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **12 Datblygiad ar Safle Ysgol Parch Thomas Ellis, Caergybi** Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd, yn amodol ar dderbyn caniatâd cynllunio, cymeradwyo bwrw 'mlaen â'r cynllun i ddatblygu 43 o gartrefi newydd mewn ymateb i'r her dai leol, er mwyn galluogi i drigolion lleol brynu neu rentu tŷ fforddiadwy ar hen safle Ysgol y Parch. Thomas Ellis, Caergybi.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cymeradwyo'r cynllun newydd i godi 43 o unedau ar hen safle Ysgol Parch. Thomas Ellis mewn ymateb i'r her dai leol** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel y nodir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |

| | |
|---|---|
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |